COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 4ydd o CHWEFROR 2019 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Geoff Hewitt (Cadeirydd yn y gadair),Ian Evans,Margaret Rees,Linda Williams,Alan Lewis,Tyssul Evans,Aled Williams,Tracey James,Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Carol Williams a Geraint Rosser.

2120 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig Mr Alan Taylor o'r Coalfields Regeneration. Cafwyd trafodaeth fanwl ganddo ynglŷn â'r ffordd y galla'u cynorthwyo'r Gymuned a phenderfynwyd gwneud ymholiadau pellach yn ystod yr wythnosau nesaf.

Llongyfarchwyd Cylch Meithrin Carwe ar dderbyn Safonau Serennog - Mudiad Meithrin Cymru a hefyd Ysgolion Carwe/Gwynfryn a Phont-henri ar dderbyn gradd Wyrdd yn ddiweddar.

2121 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 07/01/2019 fel rhai cywir.

2122 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2105 – Darllenwyd e-bost oddiwrth Stuart Thomas yn cadarnhau y bydd y Ffens wedi ei osod cyn diwedd Mis Chwefror.
Tud.2. Cofnod Rhif 2116 – Penderfynwyd trefnu Cyfarfod Safle gyda Ian Thomas i drafod ymhellach arwydd 'Heol Carwe Isaf'
Tud 2. Cofnod Rhif 2117 a 2119 - Y ddau fater yn nwylo'r Heddlu.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2123 Teenage Cancer Trust Cymru - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorydd Margaret Rees (Is-gadeirydd) yn y gadair

Cynghorwyr Geoff Hewitt a Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2124 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Geoff a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorydd Geoff Hewitt (Cadeirydd) yn y gadair.

2125 Pontyates Rangers – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

2126 Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £950.

2127 Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Conwy 2019 – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50

2128 Tenovus Cancer Care – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2129 Cylch Meithrin Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2130 Clwb Cinio Llangyndeyrn –Llythyr yn diolch am y rhodd.

2131 Brief Lives – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2132 Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2133 Carmarthen Ramblers - Llwybyr Treftadaeth - Awdurdodwyd y Clerc i wneud ymholiadau pellach am arwyddion ar y llwybr.

Ceisiadau Cynllunio

2134 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/38293 - M & S Price ac W & A Roberts - Tŷ Haf a Ger y Mynydd,Bancffosfelen - Mynediad Cefn - Dim Gwrthwynebiad.

b) Cais Rhif W/38328 – Mr Cooper – 116 Heol y Meinciau,Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

c) Cais Rhif W/38339 - Karen Latchford - Tŷ'r Castell,Crwbin - Estyniad- Dim Gwrthwynebiad.

ch) Cais Rhif W/38358 – Mr & Mrs Williams – Panteg,Llangyndeyrn- Troi Llety i Weithiwr Farm - Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2135 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ionawr 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2136 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Ionawr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Ionawr)
ch) HMRC (Treth)- £84.40 (Mis Ionawr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Ionawr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ionawr)- £182.00)
f) Bag Newydd i'r Clerc - £35.00
ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau (Mis Ionawr) - £9.92
g) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £66.66
ng) Stampiau - £21.96
h) Glanhau Cysodfannau Bys 5 * £200 yr un

Materion Cynghorwyr

2137 **Alan -** Post trydan i lawr ar ben Heol Hengoed

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Fawrth 2019 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……